Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

National Assembly for Wales
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

25 Mawrth 2019

Annwyl Mike,

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun ar gyfer ei chyllideb carbon gyntaf - Ffyniant i Gymru: Cymru Carbon Isel – a hynny ddydd Iau 21 Mawrth 2019.

Mae'r Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau wedi bod yn aros yn eiddgar am y cyhoeddiad hwn er mwyn medru craffu rhywfaint ar yr agweddau sy'n berthnasol i'n portffolio - yn enwedig sut y mae'n mynd i'r afael â datgarboneiddio trafnidiaeth a diwydiannau carbon-ddwys.

Rwy'n ymwybodol bod CCERA yn bwriadu craffu'n fanylach ar y cynllun yn ei gyfanrwydd, ond roeddwn am eich hysbysu y bydd EIS yn craffu ar waith Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth mewn dau o'n cyfarfodydd yn ystod mis Mai. Gobeithio y bydd y gwaith hwn, ac unrhyw beth arall y byddwn yn ei gynhyrchu o ganlyniad iddo, yn gallu bwydo i'ch gwaith craffu ehangach mewn perthynas â'r cynllun gweithredu.

Dymuniadau gorau,



Russell George, AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565